| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Ieuenctid Cynorthwyol |
| **Portffolio** | Addysg ac Ieuenctid |
| **Yn atebol i'r** | Gweithiwr Ardal |
| **Lleoliad** | Amrywiol |
| **Cyfeirnod Swydd/Rhif Adnabod** | |

**Pwrpas y Swydd**

Cynnig cyfleoedd addysgol anffurfiol i bobl ifanc rhwng 11-25 oed i'w galluogi nhw i archwilio a datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen i adnabod ac ymgymryd â'u cyfrifoldebau a'u hawliau fel aelodau gwybodus o gymdeithas.

Mae'r uchod wedi'i seilio ar Ddatganiad Cwricwlwm Asiantaeth Ieuenctid Cymru sy'n diffinio dibenion gwaith ieuenctid fel a ganlyn:

- hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person ifanc er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu potensial fel unigolion grymus ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau.

- cefnogi pobl ifanc wrth bontio i fyd oedolion.

- cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau a sgiliau sy'n eu galluogi nhw i wneud defnydd pwrpasol o'u hamser ac adnoddau personol.

Mae gwaith ieuenctid felly'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc sy'n:

<u>Addysgiadol</u> - Galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen i adnabod, eirioli a dilyn trywydd eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

<u>Cyfranogol</u> - Pan gaiff pobl ifanc eu hannog i rannu cyfrifoldebau a dod yn bartneriaid cyfartal, sy'n hanfodol i'r broses ddysgu a'r strwythurau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylcheddau eu hunain a rhai pobl eraill.

<u>Grymusol</u> - Galluogi pobl ifanc i ddeall a gweithredu ar faterion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau nhw, bywydau pobl eraill a'r cymunedau y maen nhw'n rhan ohonynt.

<u>Mynegol</u> - Annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau, emosiynau a'u dyheadau drwy gyfleoedd creadigol, cefnogol a heriol sy'n codi ymwybyddiaeth o:

Hunaniaeth ddiwylliannol
Dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain
Treftadaeth
Parch at amrywiaeth
Dinasyddiaeth a pharch at eraill

Dylen nhw:

Herio gorthrwm ac anghydraddoldeb, hyrwyddo derbyn gwahaniaethau sy'n deillio o hil, hunaniaeth rywiol, rhywedd, anabledd, oedran, crefydd a dosbarth cymdeithasol, cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant, ieithoedd eraill, a’r amrywiaeth o ddiwylliannau yng Nghymru.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Cynorthwyo i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu goruchwylio, eu hysgogi ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, trefnu, monitro a gwerthuso rhaglen y cytunwyd arni sy’n seiliedig ar y cwricwlwm.
2. Cynorthwyo i lenwi taflenni Cofnodi ac Adolygu Misol.
3. Cynorthwyo â gwaith gweinyddol ac ariannol y Ganolfan; yn cynnwys cofnodion presenoldeb, tanysgrifiadau, hawliadau cyflog, arian mân, ffreutur / bar coffi, rhestr eiddo a chofnodion Iechyd a Diogelwch.
4. Cynorthwyo i oruchwylio a diogelu'r adeilad a'r offer yn effeithiol; a rhoi gwybod am unrhyw waith trwsio angenrheidiol a phroblemau yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch i'r Gweithiwr Ifanc â Chyfrifoldeb.
5. Rhoi cymorth i sicrhau cysylltiadau cymunedol, hyrwyddo a chyhoeddusrwydd effeithiol yn gysylltiedig â gweithrediad y Ganolfan.
6. Sicrhau gweithrediad polisi a gweithdrefnau presennol Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn ymwneud â'r Cwricwlwm, Cyfleoedd Cyfartal, Cyllid, Amddiffyn Plant, ac Iechyd a Diogelwch.
7. Cymryd rhan mewn wythnosau hyfforddi, digwyddiadau ieuenctid a chyfarfodydd ardal.
8. Parodrwydd i hyfforddi at Gymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2 sy’n cael ei gydnabod gan y JNC, o fewn 2 flynedd o gael eich penodi.

**Goruchwylio/Rheoli Pobl**

Amherthnasol

**Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. DBS**

Angen gwiriad manylach y DBS.

**Amodau Gweithio Arbennig**

Mae’r swydd hon yn cynnwys gweithio gyda’r nos.
Os bydd Canolfan neu Glwb yn cau, os bydd digwyddiadau ardal weithredol yn cael eu cynnal yn achlysurol neu os bydd amgylchiadau arbennig, mae’n bosib y bydd yn rhaid adleoli dros dro o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

**Manylion am yr Unigolyn**

***Mae’r manylion am yr unigolyn yn nodi’r sgiliau, yr wybodaeth a’r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni’r swydd, ac fe'i defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a’r cam cyfweld. Mae’n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o’r gofynion hanfodol.***

| Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol | Hanfodol / Dymunol | Sut fydd hyn yn cael ei asesu? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Cymhwyster mewn Chwaraeon, Celfyddydau, Addysg Awyr Agored, Cwnsela, Cymorth Cyntaf ac ati. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed (am dâl neu'n wirfoddol) | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am Bolisi ac Arferion Cyfle Cyfartal | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymwybyddiaeth o Faterion Ieuenctid ac Anghenion pobl ifanc. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau Trefnu, Cyfathrebu a Chymell da. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu ymgymryd â Dyletswyddau Ariannol a Chofnodi Sylfaenol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu sgwrsio / gohebu yn Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio/Gweithio mewn Partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** Sicrhau ein bod ni'n deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:** Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:** Eich arwain a'ch cymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |